

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn At:	Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y cyhoedd, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, cwmnïau yswiriant sy'n ymwneud ag ymgyfreitha sifil, a phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn yng Nghymru a Lloegr.
Hyd:	O 29 Mawrth 2011 tan 30 Mehefin 2011
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:	Judith Evers Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Pwynt Post 4.12 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 3182 E-bost: CivilTJ@justice.gsi.gov.uk
Sut mae ymateb:	Ymatebwch ar-lein yn www.justice.gov.uk/consultations/consultations.htm erbyn 30 Mehefin 2011. Neu anfonwch eich ymateb erbyn 30 Mehefin i: e-bost: CivilTJ@justice.gsi.gov.uk neu drwy'r post i: Judith Evers, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Pwynt Post 4.12 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ
Fersiwn Gymraeg:	Mae fersiwn Gymraeg o'r Cyflwyniad i'r papur ymgynghori hwn ar gael yn www.justice.gov.uk/consultations/consultations.htm
Papur ymateb:	Caiff ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ei gyhoeddi yn ystod mis Hydref 2011 yn: www.justice.gov.uk/consultations/consultations.htm

1. Cyflwyniad

1.1. Yr achos dros newid

1. Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn nodi cynigion i ddiwygio'r system cyfiawnder sifil yn llysoedd Cymru a Lloegr, gan gyfrannu'n sylweddol at gynlluniau'r Llywodraeth hon i fynd i'r afael â'r diwylliant iawndal, adfer cymesuredd costau i ddefnyddwyr llysoedd – yn enwedig busnesau, a hyrwyddo dulliau amgen o ddatrys anghydfod sy'n gyflymach ac yn rhatach, lle bo hynny'n briodol.
2. Cyfiawnder sifil yw'r maes o fewn y gyfraith sy'n delio â phroblemau bob dydd megis adennill a gorfodi dyledion heb eu talu, datrys anghydfod sifil ar draws amrywiaeth o feysydd sy'n cynnwys dyled, cyfraith defnyddwyr a chontractau ac anafiadau personol, a diogelu rhyddid unigolion. Mae'n effeithio ar fywydau miliynau o bobl bob blwyddyn.
3. Roedd y gwariant ar yr Uchel Lys a'r llysoedd sirol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer y flwyddyn 2009/10 yn £363 miliwn, a chafodd y rhan fwyaf o hwn ei dalu drwy ffioedd llysoedd sy'n talu am y seilwaith gweinyddol, barnwrol ac ystâd.
4. Mae sicrhau bod proses y system cyfiawnder sifil yn iawn er mwyn i bobl a busnesau allu delio â'u problemau yn gyflym, yn effeithiol ac am gost gymesur yn gwneud cyfraniad sylweddol at hyder economaidd a lles cymdeithasol. Mae'n hen bryd am ddiwygio – nid yw'r system bresennol wedi addasu i'r newidiadau economaidd a chymdeithasol mawr sydd wedi digwydd dros y pymtheng mlynedd ddiwethaf ers i'r Arglwydd Woolf gyhoeddi ei argymhellion ar gyfer diwygio cyfiawnder sifil yn ei Adroddiad Mynediad at Gyfiawnder. Y canlyniad yw system sydd angen canolbwyntio mwy ar ddatrys anghydfod ac adennill dyledion ar gyfer mwyafrif ei defnyddwyr, yn hytrach na delfrydau mawreddog megis 'cyfiawnder' sy'n arwain llawer o bobl i fwrw ymlaen â'u hachosion y tu hwnt i'r pwynt lle mae'n economaidd iddynt wneud hynny.
5. Mae'r cynigion yn y papur hwn yn ymwneud yn bennaf ag achosion hawliadau yn y llys sirol, lle'r ymdrinnir â'r mwyafrif o hawliadau sifil. Fodd bynnag, maent yn rhan o gyfres ehangach o lawer o welliannau sydd â'r nod o wella profiad defnyddwyr llysoedd yn sylweddol.
6. Yn arbennig, mae'r gwelliannau hyn yn ategu'r cyfarwyddiadau a nodwyd yn adroddiad yr Arglwydd Young, 'Synnwyr Cyffredin, Diogelwch Cyffredin' (sy'n cynnig, ymhlith argymhellion eraill, ymestyn ac ehangu'r cynllun costau penodedig ar gyfer hawliadau anafiadau personol oherwydd damweiniau traffig ar y ffordd i feysydd eraill anafiadau personol, gan gynnwys esgeulustod clinigol) yn ogystal ag ymgynghoriadau diweddar y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar ddiwygio ariannu a chostau ymgyfreitha sifil a chymorth cyfreithiol, a dylid eu darllen yng ngoleuni'r cyfarwyddiadau a'r ymgynghoriadau hynny.

Mae'r argymhellion ar gyfer diwygio ariannu a chostau ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr yn arbennig o berthnasol i'r papur ymgynghori hwn. Yn enwedig, mae ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwnnw yn cadarnhau ei bod yn bwriadu:

- diddymu gallu cyffredinol y parti sy'n colli i adennill ffioedd llwyddiant cytundeb ffi amodol a phremiymau yswiriant ar ôl y digwyddiad;
- cefnogi cynnydd 10% mewn iawndaliadau cyffredinol (am golled nad yw'n ariannol megis poen, dioddefaint a cholli amwynder) ymhob hawliad anghyfiawnder sifil;
- cyflwyno symud costau un ffordd amodol (er mwyn sicrhau bod hawliwr sy'n colli dim ond yn talu cymaint o gostau'r diffynnydd ag sy'n rhesymol i'w talu dan yr holl amgylchiadau) mewn achosion anafiadau personol;
- cynyddu'r gyfradd bob awr benodedig y gall ymgyfreithwyr ei hadennill yn bersonol.

7. Roedd Adolygiad yr Arglwydd Ustus Jackson o Gostau Ymgyfreitha Sifil hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau i drefn llysoedd ar gyfer rheoli achosion a chostau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â gweithdrefnau yn yr Uchel Lys neu'r llysoedd sirol arbenigol ac felly ni fyddant yn cael dim effaith ar y cynigion yn y papur ymgynghori hwn. Fodd bynnag, bydd cynlluniau eraill yn cael eu defnyddio'n ehangach – megis, er enghraifft, y peilot i asesu costau y ceir anghydfod yn eu cylch hyd at £25,000 ar bapur yn hytrach na mewn gwrandawriad, sydd ar waith yn Llysoedd Sirol Leeds, Scarborough a Chaerfegus; a chynigion ar gyfer cyfarwyddiadau rheoli achosion safonol a chyllidebu costau. Rydym wrthi'n trafod â'r Grŵp Llywio Barnwrol ynglŷn â rhyngweithio'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn ag argymhellion ehangach yr Arglwydd Ustus Jackson ar reoli achosion a chostau, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau o ran rhoi'r argymhellion hynny ar waith.

1.2 Y tirlun cyfiawnder sifil presennol: Beth sydd wedi mynd o'i le?

Y llys yn ddewis olaf?

8. Yn 1996, cyhoeddodd yr Arglwydd Woolf ei Adroddiad Mynediad at Gyfiawnder. Gallwn ganmol gwelliannau'r Arglwydd Woolf am ddarparu strwythur cliriach a hyrwyddo diwylliant o fod yn agored; ac am greu'r disgwyliad mai'r dewis olaf y dylai ymgyfreitha a'r llys fod.
9. Y sail i welliannau'r Arglwydd Woolf oedd nad mynd i'r llys yw'r dewis neu'r llwybr gorau na mwyaf priodol bob amser, ac y gellid ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar weithredu cyn cyflwyno achos i'r llys. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r Rheolau Trefn Sifil a'r protocolau cyn-achos yn 1999.
10. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau mewn rhai meysydd, ceir gormod o lawer o achosion o hyd lle bydd partïon yn mynd i'r llys yn ddiangen ac yn wynebu costau anghymesur o uchel pan fyddant yn cyrraedd yno. Er enghraifft, mae mwy na thri chwarter, neu 87,000 o bob hawliad sy'n cael ei glustnodi i'r trac cyflym a'r aml-drac yn dal i setlo rhwng adeg cael eu clustnodi a'r treial (gweler Atodiad A) – mae hyn yn

golygu costau diangen sylweddol i'r partïon dan sylw a bod adnoddau'r llys ac amser y farnwriaeth yn cael eu gwastraffu. Mae setlo hwyr yn rhywbeth y soniodd yr Arglwydd Ustus Jackson amdano yn ei Adolygiad o Gostau Ymglyfreitha Sifil:¹

“Mae nifer o achosion, a ddylai gael eu setlo'n gynnar, mewn gwirionedd yn cael eu setlo'n hwyr iawn. O bryd i'w gilydd, bydd yr achosion hyn yn mynd i dreial. Y rheswm dros ymglyfreitha yn ofer fel hyn yw (a) bod un o'r partïon, neu'r ddau ohonynt, yn methu mynd i'r afael â'r materion mewn da bryd neu (b) nad yw'r partïon yn cyfathrebu'n effeithiol.”

11. Hefyd, mewn rhai achosion, bydd y partïon yn troi at y llys yn rhy gynnar, cyn ceisio datrys eu hanghydfod mewn ffyrdd llai ffurfiol. Mae diffyg ymwybyddiaeth o ddulliau a gwasanaethau priodol ar gyfer datrys anghydfod, ynghyd â chanfyddiad nad yw llwybrau o'r fath yn ddigon ffurfiol i sicrhau canlyniadau, yn gwaethygu'r broblem hon.

Gwasanaeth syml ac effeithlon?

12. Lle bo ar bobl wir eisiau neu angen mynd i'r llys, rhaid i brosesau'r llys fod mor gyflym, syml ac effeithlon â phosibl. Mae mwy o lawer i'w wneud o ran hyn – yn rhy aml bydd amser a chost delio â phroblemau neu faterion yn anghymesur i'r mater neu'r broblem sydd dan sylw.
13. Rydym yn gweithredu nifer o'r prif argymhellion yn adroddiadau Syr Rupert Jackson a'r Arglwydd Young sy'n nodi sut y gellir symleiddio prosesau llysoedd ar gyfer hawliadau damweiniau traffig ar y ffyrdd, hawliadau anafiadau personol a hawliadau esgeulustod clinigol gwerth isel.
14. Rydym hefyd yn ailedrych ar rai o welliannau'r Arglwydd Woolf. Un newid allweddol a awgrymwyd ganddo oedd cyflwyno dull newydd o reoli achosion – ‘y system traciau’ – i ddelio ag achosion yn ôl pa mor gymhleth ydynt. Mae'r trac hawliadau bychain, yn enwedig, wedi cael ei groesawu fel llwybr symlach, rhatach a chyflymach i ddatrys anghydfod gan unigolion a busnesau ers iddo gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, yn sgil chwyddiant, mae nifer o'r achosion a fyddai wedi perthyn i ben uchaf y trac hawliadau bychain yn 2000 yn cael eu rhoi ar y trac cyflym erbyn hyn. Mae gan hyn oblygiadau o ran costau, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig, ac mae ein cynigion yn rhoi sylw i'r broblem hon.
15. Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi darparu Hawlio Arian Ar-lein (MCOL) a Hawlio Meddiant Ar-lein (PCOL), sef gwasanaethau ar y we sy'n galluogi cyflwyno hawliadau dros y rhyngwrdd. Hoffem annog pobl i ddechrau mwy o achosion yn electronig, am fod hyn yn rhatach ac yn fwy effeithlon.

¹ Review of Civil Litigation Costs: Final Report, Rhagfyr 2009 – Tudalen 49

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

16. Rydym hefyd yn awyddus i foderneiddio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy gownteri cyhoeddus yn y llysoedd sirol, gan gynnal gwasanaeth wyneb yn wyneb i'r rheini y mae ei angen arnynt, ond defnyddio mwy o gyfleusterau ar-lein ac apwyntiadau dros y ffôn.

A oes hyder yn y system i sicrhau canlyniadau?

17. Dros y blynyddoedd diwethaf, ceir hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu bod hyder yn y system i orfodi dyfarniadau llys a sicrhau iawndal wedi dirywio am fod dyledwyr yn peidio ag ymgysylltu ac yn oedi effeithiau dyfarniadau.
18. Hefyd, gellir sicrhau hyder yn y system drwy fod yn gymesur drwy ddiogelu'r defnyddiwr ar y stryd fawr a grwpiau bregus sydd wir yn methu talu. Ym mis Mai 2010, dywedodd y Llywodraeth Glymblaid yn glir ei bod wedi ymrwymo i edrych ar faterion megis beilliau a phrosesau ymosodol ar gyfer gorchmynion gwerthu er mwyn sicrhau bod y system yn deg.

System sy'n rhoi gwerth am arian?

19. Credwn ei bod yn rhaid i system cyfiawnder sifil gael ei gyrru gan ddyhead i gyflawni safon uchel o gyfiawnder am gost gymesur i'r ddau barti dan sylw ac i'r trethdalwr. Ond, bydd nifer o bobl sy'n cael eu gorfodi i ymglyfreitha a chwilio am ddatrysiad drwy'r llys yn aml yn treulio gormod o amser ac yn gwario symiau anghymesur o arian ar eu costau a'u cynrychiolaeth gyfreithiol. Felly, hoffem i'r system cyfiawnder sifil newydd fod yn un lle bydd mwy o lawer o bobl yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ddulliau eraill, llai drud, o ddatrys anghydfod, megis cyfryngu – ac yn cydweithio yn hytrach nag ymglyfreitha.
20. Yn fwy na hynny, mae'r trefniadau awdurdodaethol presennol yn creu anghysondebau difrifol yn y system sy'n golygu nad ydym yn defnyddio'r adnoddau a'r arbenigedd barnwrol sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol. Er enghraifft, mewn rhai materion bydd awdurdodaeth y llysoedd sirol wedi'i gyfyngu i achosion gwerth £30,000 neu lai – mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid cyfeirio nifer o achosion syml iawn i'r Uchel Lys, gan arwain at lawer o amser a chostau.

Beth fydd hyn yn ei gostio felly?

21. Yn 2009/10, cost rhedeg y llysoedd sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr oedd £619m. Cafodd bron i 82% o hwn ei ariannu drwy ffioedd llysoedd gwerth oddeutu £507.2m. Caiff ffioedd llysoedd eu pennu gan yr Arglwydd Ganghellor dan bwerau statudol a rhaid iddynt gydymffurfio â'r egwyddorion polisi cyffredinol ar gyfer gwasanaethau statudol sy'n codi tâl, fel y nodir yn nogfen y Trysorlys, 'Rheoli Arian Cyhoeddus – Ffioedd ac Ardollau'. Dylid pennu ffioedd llysoedd, gymaint ag y bo modd, ar lefelau sy'n adlewyrchu cost lawn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu tra bod cynllun o ildio hawl (dilead) yn bodoli i ddiogelu mynediad pobl lai cefnog at gyfiawnder.
22. Rydym yn dal wedi ymrwymo i ddarparu system ffioedd symlach a mwy cynaliadwy, gyda chymorth Trysorlys EM sy'n sicrhau y caiff costau eu hadennill yn llawn ar gyfer busnes sifil a theulu. Bydd manteision system symlach a mwy effeithlon i'w gweld yng

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

nghost darparu'r gwasanaethau ac yn lefel y ffioedd yn y tymor canolig a'r hirdymor, a bydd hyn yn sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr y gwasanaethau a ddarperir. Bydd bod yn dryloyw ynglŷn â chostau'r gwasanaethau a ddarperir yn galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau rhesymol ynghylch pa un ai a ddylid cyflwyno achosion i'r llys ynteu ddefnyddio dulliau amgen, megis cyfryngu, lle bo hynny'n briodol.

23. Bydd unrhyw gynigion a gaiff eu dwyn ymlaen o'r ymgynghoriad hwn, sy'n dylanwadu ar gostau darparu ein gwasanaethau a chostau'r llysoedd, yn destun ymgynghori pellach â'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn adennill cost lawn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

1.3 Ein cynigion: Gweledigaeth newydd ar gyfer cyfiawnder sifil

24. Mae'r rhan fwyaf o unigolion, busnesau bach a chorfforaethau mawr yn awyddus i ddatrys eu problemau yn gyflym, yn rhad ac mewn ffordd gyfrinachol. Nod ein cynigion ni yw ymateb i'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion ac maent yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cymesuredd – dylid datrys anghydfod drwy'r dull mwyaf priodol, er mwyn sicrhau bod prosesau a chostau yn gymesur i gymhlethdod y materion dan sylw.
- Cyfrifoldeb Personol – lle bynnag y bo modd, dylai dinasyddion gymryd cyfrifoldeb dros ddatrys eu hanghydfod eu hunain, tra bod y llysoedd yn canolbwyntio ar ddyfarnu materion arbennig o gymhleth neu gyfreithiol.
- Symleiddio Gweithdrefnau – dylai gweithdrefnau fod yn addas i ddinasyddion a busnesau, gyda gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyfiawnder amserol.
- Tryloywder – dylid sicrhau bod gwybodaeth glir am y dewisiadau datrys anghydfod sydd ar gael i ddinasyddion er mwyn iddynt allu gweithredu'n gynnar, gwneud penderfyniadau gwybodus a chael mynediad hwylus at y gwasanaethau mwyaf priodol

25. Mae'r papur hwn yn esbonio ystod o ddewisiadau i helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyflwyno gweithdrefn hawliadau symlach yn seiliedig ar gostau penodedig, yn debyg i'r hyn sydd ar gael ar gyfer damweiniau traffig ar y ffordd o dan £10,000, ar gyfer rhagor o fathau o hawliadau anafiadau personol; gan archwilio'r posibilrwydd o ymestyn fframwaith cynllun o'r fath i gynnwys hawliadau esgeulustod clinigol gwerth isel; ac archwilio'r posibilrwydd o ymestyn uchafswm y gweithdrefnau symlach hynny ar gyfer hawliadau i £25,000 neu £50,000;
- Cyflwyno proses rheoli anghydfod a chostau penodedig y gellir eu hadennill ar gyfer mathau penodol o achosion hyd at £100,000;

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

- Cynyddu'r trothwy awdurdodaeth uchaf ar gyfer hawliadau bychain (ac eithrio anafiadau personol ac adfeiliad tai) o £5,000 i £10,000, £15,000 neu £25,000;
- Ei gwneud yn ofynnol i bob achos o dan yr uchafswm hawliadau bychain fod wedi ceisio setlo drwy gyfryngu cyn iddynt gael eu hystyried am wrandawriad;
- Cyflwyno sesiynau gwybodaeth/asesiad cyfryngu ar gyfer pob hawliad uwchben yr uchafswm hawliadau bychain;
- Annog rhagor o bobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein;
- Darparu trefn orfodi symlach a mwy effeithiol;
- Gweithredu gwelliannau yng nghyswllt gorfodaeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Senedd yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, mewn prosesau Gorchmynion Gwerthu, Gorchmynion Codi Tâl, Atafaelu Enillion a Cheisiadau a Gorchmynion Gwybodaeth;
- Cyflwyno gwelliannau o ran symleiddio ac effeithlonrwydd i brosesau'r Gorchymyn Dyledion Trydydd Parti a'r Gorchymyn Codi Tâl;
- Ceisio canfod parodrwydd y cyhoedd am welliannau pellach i orfodaeth a rhagor o newidiadau awdurdodaethol;
- Cyflwyno nifer o newidiadau awdurdodaethol yn y llysoedd sifil, gan gynnwys cyflwyno un awdurdodaeth llys sirol i Gymru a Lloegr.

Gwell gwybodaeth gyhoeddus

26. Mae gan wybodaeth ran bwysig i'w chwarae yn ein rhaglen diwygio. Rydym yn awyddus i sicrhau bod gan bobl fynediad hwylus at wybodaeth a chymorth yn gynnar pan fydd eu hangen arnynt, er mwyn gallu datrys problemau a rhoi terfyn ar anghydfod posibl yn gynnar cyn iddynt ddatblygu'n achosion cyfreithiol ffurfiol. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod partïon yn sylweddoli goblygiadau eu gweithredoedd a bod dyledwyr yn deall yr angen i ymroi i broses y llys o'r cychwyn cyntaf.
27. Ochr yn ochr â'r cynigion hyn, rydym wrthi'n gwella'r wybodaeth a gynigiwn i aelodau o'r cyhoedd, drwy ddarparu cynnwys gwell ar-lein drwy Directgov², sef gwefan ganolog y Llywodraeth i ddinasyddion. Mae ein cynnwys newydd wedi'i ddylunio i roi gwybod i'r cyhoedd am yr ystod lawn o ddewisiadau sydd ar gael iddynt i ddatrys anghydfod sifil, gan gynnwys cyfryngu, defnyddio Ombwdsman, cynlluniau cyflafareddu diwydiannol a defnyddio rheoleiddwyr statudol, lle bo hynny'n briodol. Mae hefyd yn ceisio gwneud proses y llys ei hun yn gliriach, gan ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ei defnyddio, a darparu gwybodaeth a rhybuddion clir am yr amser a'r costau sydd ynghlwm wrth ddilyn llwybr ymglyfreitha, a all fod yn hir iawn. Mae'r adnodd newydd

² www.direct.gov.uk

hwn hefyd yn cynnwys cyfres o glipiau clyweledol sy'n esbonio'r hyn sy'n digwydd mewn gwrandawriad llys; yr hyn sy'n digwydd yn ystod cyfryngu; a'r hyn a all ddigwydd o ganlyniad i orfodi dyfarniad. Maent hefyd yn cynnwys eitemau byr i'r camera sy'n helpu i esbonio manteision cyfryngu yn hytrach nag ymgyfreitha, yn ogystal â thystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi defnyddio'r broses gyfryngu.

28. Yn y ddogfen ymgynghori 'Cynigion ar gyfer Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr', roeddem wedi nodi cynigion ar gyfer sefydlu'r llinell gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLA) bresennol fel prif borth i wasanaethau cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r gwasanaeth hwn yn cyfeirio pobl sy'n ffonio at y ffynhonnell gyngor sy'n fwyaf priodol iddynt, a bydd yn un pwynt cyswllt dibynadwy i bobl sy'n chwilio am gymorth i ddelio â phroblemau cyfreithiol. Bydd pawb sy'n ffonio yn gallu cael mynediad at haen gyntaf y gwasanaeth (y Gwasanaeth Cysylltu) tra bydd yr ail haen yn cynnig cyngor arbenigol i'r rheini sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol mewn ystod ehangach o gategorïau ym maes y gyfraith sydd o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Chwefror 2011 a bydd ymateb yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2011.
29. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i fusnesau o bob maint fod yn ymwybodol o gyfleoedd i ddatrys anghydfod heb fynd i'r llys. Dangosodd y papur ymgynghori diweddar ar Ddatrys Anghydfod yn y Gwaith fod effaith gwrthdaro yn y gweithle wedi costio £24 biliwn i economi'r DU yn 2008³.
30. Byddai effaith anghydfod masnachol yn cynyddu'r gost hon ymhellach fyth. Dyna pam ein bod mor awyddus i ddarparu gwybodaeth i fusnesau ynglŷn â'r ystod lawn o ddewisiadau datrys anghydfod sydd ar gael iddynt.

1.4. Beth fydd ein cynigion yn ei olygu yn y dyfodol?

31. Mae'n bosibl i'r problemau bob dydd sydd ynghlwm wrth gyfiawnder sifil effeithio ar fywydau bob dydd unigolion a busnesau llwyddiannus. Yn bennaf, nod y cynigion hyn yw sicrhau manteision i'r rheini sy'n defnyddio system cyfiawnder sifil.
32. Bydd y cynigion hyn yn ein helpu i gyfrannu at adferiad economaidd a chymdeithasol drwy wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl ac yn targedu ein hadnoddau i gefnogi'r rheini sydd â'r problemau mwyaf cymhleth.

Manteision i fusnesau

³ <http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/employment-matters/docs/r/11-511-resolving-workplace-disputes-consultation.pdf> - Tudalen 19

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

33. Busnesau bach a chanolig yw rhai o brif ddefnyddwyr y system cyfiawnder sifil. Bydd cynigion i godi trothwy'r trac hawliadau bychain, i symleiddio prosesau allweddol ac i symleiddio gorfodaeth yn helpu busnesau bach a chanolig i ddatrys problemau yn gyflymach a chadw eu costau'n isel ar yr un pryd.
34. Mae anghydfod masnachol yn rhan annatod o fywyd ym myd busnes, ac mae'n allweddol ceisio'i ddatrys mor gyflym ac mor rhad â phosibl. Mae busnesau'n cydnabod erbyn hyn bod mecanweithiau datrys anghydfod, os cânt eu defnyddio'n gywir, yn gallu datrys anghydfod yn effeithlon ac yn gyflym am gyfran yn unig o gost ymglyfreitha, gan sicrhau'r niwed lleiaf posibl i gysylltiadau busnes.
35. Credwn y gallai rhagor o fusnesau bach a chanolig fanteisio ar y buddion sy'n cael eu cynnig gan gyfryngu a gwasanaethau eraill ar gyfer datrys anghydfod, a bod y pecyn o gynigion yn y papur hwn yn newyddion da i fusnesau.

Manteision i unigolion

36. Bydd ein cynigion yn helpu'r cyhoedd i gael mynediad at ein system cyfiawnder sifil. Tra bod angen i ni sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd, byddwn yn sicrhau bod anghenion dinasyddion yn penderfynu sut y byddwn yn llunio ein gwasanaethau. Mae hynny'n golygu darparu system effeithiol, dryloyw ac ymatebol sy'n sicrhau'r math o gyfiawnder sifil y mae dinasyddion a chymunedau yn ei ddisgwyl.

Manteision i wasanaeth cyhoeddus

37. Bydd mwy o lawer o achosion o anghydfod yn cael eu datrys yn gynharach heb fynd yn rhan o broses ymglyfreitha gostus, a lle bydd y llys yn dal i fod y dewis gorau, bydd proses y llys yn symlach ac yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer.

1.5. Crynodeb o'r penodau

38. Bydd pedair pennod nesaf y papur yn rhoi sylw i'r cwestiynau allweddol canlynol:

Beth ellir ei wneud i rwystro'r anghydfod rhag gwaethygu er mwyn ei ddatrys yn gyflymach ac am gost is?

39. Mae Pennod 2 yn disgrifio ein cynlluniau i gyflwyno gweithdrefn hawlio symlach ar gyfer hawliadau anafiadau personol; yn ystyried cyflwyno proses rheoli anghydfod ar gyfer mathau eraill o anghydfod hyd at £100,000; ac yn cynnig cynyddu uchafswm y trac hawliadau bychain.

Beth yw swyddogaeth mecanweithiau amgen ar gyfer datrys anghydfod, megis cyfryngu, a phryd y dylai partïon eu defnyddio?

40. Mae Pennod 3 yn disgrifio cynigion i'w gwneud yn ofynnol i bob achos hawliadau bychain fod wedi rhoi cynnig ar gyfryngu cyn cael eu hystyried am wrandawriad, gan gyflwyno sesiynau gwybodaeth/asesu cyfryngu ar gyfer achosion uwchben yr uchafswm hawliadau bychain.

Sut y gellir adfer awdurdod y gorchymyn dyfarniad a gwella'r prosesau adennill dyledion a gorfodaeth?

41. Mae Pennod 4 yn disgrifio cynigion i ddarparu trefn orfodi symlach a mwy effeithiol drwy weithredu gwelliannau yng nghyswllt gorfodaeth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Senedd yn Rhan 4 y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth; cyflwyno gwelliannau o ran symleiddio ac effeithlonrwydd; a chanfod awydd y cyhoedd am ragor o welliannau.

Beth ellir ei wneud i sicrhau yr ymdrinnir â gwaith yn y system cyfiawnder sifil ar y lefel fwyaf priodol?

42. Mae Pennod 5 yn disgrifio cynigion i resymoli awdurdodaethau'r Uchel Lys a'r Llys sirol, a chreu un llys sirol i Gymru a Lloegr.

1.6 Y broses ymgynghori

43. Mae'r papur hwn yn nodi'r cynigion ymgynghori ynghylch trawsnewid y ffordd yr ymdrinnir â hawliadau sifil yn y llysoedd sirol a gwella'r broses hawlio ar gyfer achosion anafiadau personol gwerth isel. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y cyhoedd, busnesau a phawb o'r rheini sydd â diddordeb yn y system cyfiawnder sifil yng Nghymru a Lloegr.
44. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac mae'n dod o fewn cwmpas y Cod. Mae'r Meini Prawf Ymgynghori, sydd i'w gweld ar dudalen 85, wedi'u dilyn.
45. Mae'r asesiadau o effaith reoleiddiol rhannol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, yn dangos mai ar y proffesiwn cyfreithiol, cwmnïau yswiriant a phartïon sy'n gwneud hawliadau am anafiadau personol y bydd y cynigion hyn yn effeithio fwyaf, siŵr o fod. Fodd bynnag, maent yn annhebygol o arwain at gostau ychwanegol i fusnesau, elusennau, y sector gwirfoddol neu'r sector cyhoeddus. Croesewir sylwadau ar yr asesiadau effaith rhannol.
46. Anfonir copïau o'r papur ymgynghori i amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys:

Advice UK

Alarm – Y Gymdeithas Rheoli Risg i'r Cyhoedd

Awdurdod Ymgysreithia'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Biwrô Yswirwyr Cerbydau Modur

Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain

Cynghrair Gwasanaethau Cynghori

Cyngor ar Bopeth

Cyngor Barnwyr Cylchdaith EM

Cyngor Barnwyr Cymru a Lloegr

Cyngor Cyfryngu Sifil

Cyngor y Bar

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cyngres yr Undebau Llafur
Cymdeithas Bancwyr Prydain
Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM
Cymdeithas Cyfreithwyr Anafiadau Personol
Cymdeithas Defnyddwyr y Llysoedd Sifil
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas y Twrneiod Damweiniau Modur
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Grŵp Brandiau Prydeinig a'r Grŵp Gwrth-ffugio
Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol
Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant
InterResolve
Llais Defnyddwyr
R3 (Cymdeithas y Gweithwyr Proffesiynol ym maes Adfer Busnes)
RTA Portal Co Ltd
Sefydliad Siartredig y Cyflafaddefwyr
Sefydliad y Cynghorwyr Ariannol
Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol
Which?
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Y Cyngor Cyfiawnder Sifil
Y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfod yn Effeithiol
Y Gymdeithas Gyllid a Phrydlesu

47. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac yn gyflawn, a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau a drafodir yn y papur hwn neu safbwyntiau amdanynt.

Adran 2 – Atal cynnydd mewn costau

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai uchafswm ariannol presennol y Cynllun Anafiadau Personol oherwydd Damweiniau Traffig ar y Ffordd (RTA PI) o £10,000 gael ei ymestyn?

Cwestiwn 2: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 1, a ddylid ymestyn yr uchafswm i (i) £25,000, (ii) £50,000 ynteu (iii) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 3: A ydych yn credu y dylai'r drefn costau penodedig dan y Cynllun RTA PI presennol aros yr un fath petai'r uchafswm yn codi i £25,000, £50,000 neu ffigur arall?

Cwestiwn 4: Os mai “nac ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 3, a ddylid pennu tariff gwahanol o gostau yn dibynnu ar werth yr hawliad? Esboniwch sut y dylai hyn weithio.

Cwestiwn 5: Yn eich tyb chi, pa addasiadau a fyddai'n angenrheidiol, os unrhyw beth o gwbl, er mwyn i'r cynllun allu delio â hawliadau RTA PI gwerth hyd at £25,000, £50,000 neu ffigur arall?

Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno amrywiad ar y cynllun RTA PI ar gyfer hawliadau Atebolwydd Cyflogwyr a Chyhoeddus?

Cwestiwn 7: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 6, a ddylid gosod uchafswm y cynllun hwnnw ar (i) £10,000, (ii) £25,000, (iii) £50,000 ynteu (iv) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 8: Yn eich tyb chi, pa addasiadau a fyddai'n angenrheidiol, os unrhyw beth o gwbl, er mwyn i'r cynllun allu delio â hawliadau Atebolwydd Cyflogwyr a Chyhoeddus?

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno amrywiad ar y cynllun RTA PI ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol gwerth isel?

Cwestiwn 10: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 9, a ddylid gosod uchafswm y cynllun newydd ar (i) £10,000, (ii) £25,000, (iii) £50,000 ynteu (iv) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 11: Yn eich tyb chi, pa addasiadau a fyddai'n angenrheidiol, os unrhyw beth o gwbl, er mwyn i'r cynllun allu delio â hawliadau esgeulustod clinigol?

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno y dylid rhoi system o gostau penodedig y gellir eu hadennill ar waith, yn debyg i'r hyn a gynigiodd yr Arglwydd Ustus Jackson yn ei Adolygiad o Gostau Ymglyfreitha Sifil: Adroddiad Terfynol ar gyfer pob hawliad anafiadau personol ar y Trac Cyflym nad yw unrhyw estyniad ar y broses RTA PI yn berthnasol iddynt?

Cwestiwn 13: A ydych yn credu y gellid rhoi system o gostau penodedig y gellir eu hadennill ar waith ar gyfer hawliadau Trac Cyflym eraill? Os nad ydych, esboniwch pam.

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cwestiwn 14: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 13, i ba hawliadau eraill y dylai'r system fod yn berthnasol a pham?

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid bod uchafswm i'r costau cyn treial y gellir eu hadennill ymhob hawliad Trac Cyflym arall? Rhowch resymau.

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno y dylid datblygu cyfarwyddiadau gorfodol cyn-achos? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 17: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 16, a ddylai cyfarwyddiadau gorfodol cyn-achos fod yn berthnasol i bob hawliad sydd â gwerth hyd at (i) £100,000 ynteu (ii) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno y dylai cyfarwyddiadau gorfodol cyn-achos gynnwys cam setlo gorfodol? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 19: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 18, a ddylid cyflwyno proses benodedig Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod? Os felly, beth ddylai'r broses honno fod?

Cwestiwn 20: A ydych yn credu y dylid sefydlu system o gostau penodedig y gellir eu hadennill ar gyfer gwahanol gamau yn ystod y drefn datrys anghydfod? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 21: A ydych yn credu y dylai costau penodedig y gellir eu hadennill fod (i) ar gyfer gwahanol fathau o anghydfod neu (ii) yn seiliedig ar werth ariannol yr hawliad? Os nad ydych, sut dylai hyn weithio?

Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno y gallai'r ymddygiad a restrir yn y Protocol Cyn-Achos ar gyfer Ôl-ddyledion Rhent a'r Protocol Cyn-Achos Morgais gael ei wneud yn orfodol? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 23: Os mai “ydw” oedd eich ateb i gwestiwn 22, a ddylid cyflwyno gwahanol weithdrefnau yn dibynnu ar y math o achos? Esboniwch sut y dylai hyn weithio.

Cwestiwn 24: Beth y dylid ei wneud, yn eich tyb chi, i annog rhagor o fusnesau, y proffesiwn cyfreithiol a sefydliadau eraill yn arbennig i ddefnyddio mwy o sianelau electronig i gyflwyno hawliadau?

Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno y dylid cynyddu'r trothwy ariannol o £5,000 ar gyfer hawliadau bychain? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 26: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 25, a ydych yn cytuno y dylid cynyddu'r trothwy i (i) £15,000 ynteu (ii) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno y dylai'r trothwy ariannol ar gyfer hawliadau bychain am adfeiliad tai aros ar y lefel bresennol sef £1,000?

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cwestiwn 28: Os mai “nac ydw” oedd eich ateb i gwestiwn 27, beth ddylai'r trothwy newydd fod? Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno y dylid cynyddu'r trothwy ariannol o £25,000 ar gyfer hawliadau trac cyflym? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 30: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 29, beth ddylai'r trothwy newydd fod? Rhowch eich rhesymau.

Adran 3 – Dulliau amgen o ddatrys anghydfod

Cwestiwn 31: A ydych yn credu bod cynllun achrediad y Cyngor Cyfryngu Sifil ar gyfer darparwyr cyfryngu yn ddigonol?

Cwestiwn 32: Os mai “nac ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 31, beth yn rhagor y dylid ei wneud i reoleiddio cyfryngwyr sifil a masnachol?

Cwestiwn 33: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno atgyfeirio awtomatig i gyfryngu mewn achosion hawliadau bychain?

Cwestiwn 34: Os caiff y trothwy ariannol ar gyfer hawliadau bychain ei godi (gweler Cwestiwn 25), a ydych yn credu y dylai'r atgyfeirio awtomatig i gyfryngu fod yn berthnasol i bob achos hyd at (i) £15,000, (ii) yr hen drothwy o £5,000 ynteu (iii) ffigur arall? Rhowch resymau.

Cwestiwn 35: Sut y dylid darparu cyfryngu mewn hawliadau bychain? Esboniwch gan roi rhesymau.

Cwestiwn 36: A ydych yn credu y dylai unrhyw achosion gael eu heithrio rhag atgyfeirio awtomatig i'r broses gyfryngu?

Cwestiwn 37: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 36, beth ddylai'r eithriadau hynny fod a pham?

Cwestiwn 38: A ydych yn cytuno y dylai partïon gael cyfle i ddewis pa un ai a gaiff gwrandawiadau hawliadau bychain eu cynnal dros y ffôn ynteu eu penderfynu ar bapur? Rhowch resymau.

Cwestiwn 39: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno sesiynau gorfodol i roi gwybodaeth am gyfryngu mewn achosion gwerth hyd at £100,000? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 40: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 39, nodwch beth fyddai'n cael ei drafod yn y sesiynau hyn, a sut y byddent yn cael eu darparu (er enghraifft drwy ddulliau electronig)?

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cwestiwn 41: A ydych yn credu y dylid bod eithriadau rhag y sesiynau gorfodol i roi gwybodaeth am gyfryngu?

Cwestiwn 42: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 41, beth ddylai'r eithriadau hynny fod a pham?

Cwestiwn 43: A ydych yn cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ofynnol gan Gyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ynghylch Cyfryngu gael eu darparu yn yr un modd ar gyfer achosion domestig? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 44: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 43, beth y dylid ei ddarparu â pham?

Adran 4 – Casglu dyledion a gorfodaeth

Cwestiwn 45: A ydych yn cytuno y dylai'r ddarpariaeth yn y Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth sy'n galluogi credydwy'r i wneud cais am orchmynion codi tâl fel mater o drefn, hyd yn oed lle bo'r dyledwyr yn talu mewn rhandaliadau a heb fynd ar ei hôl hi, gael ei rhoi ar waith? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 46: A ydych yn cytuno y dylid pennu trothwy a fyddai'n sicrhau, pe na bai gwerth yr hawliad yn ei gyrraedd, na fyddai modd i gredydwy'r orfodi gorchymyn codi tâl drwy orchymyn gwerthu ar gyfer dyledion a achoswyd yn wreiddiol dan gytundeb rheoledig dan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 47: Os mai “ydw” oedd eich ateb i Gwestiwn 46, a ddylai'r trothwy fod yn (i) £1,000, (ii) £5,000, (iii) £10,000, (iv) £15,000, (v) £25,000 ynteu (vi) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 48: A ydych yn cytuno y dylai'r trothwy fod yn berthnasol i ddyledion dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr yn unig? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 49: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno tablau penodedig ar gyfer atodi enillion? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 50: A ydych yn cytuno y dylid bod mecanwaith ffurfiol i alluogi'r llys i ganfod pwy yw cyflogwr presennol dyledwr heb orfod dibynnu ar wybodaeth a roddir gan y dyledwr? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 51: A ydych yn cytuno y dylid symleiddio'r drefn ar gyfer Gorchmynion Dyled Trydydd Parti yn y ffordd a gynigir? Os nad ydych, esboniwch pam.

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cwestiwn 52: A ydych yn cytuno y dylai Gorchmynion Dyled Trydydd Parti fod yn berthnasol i ystod ehangach o gyfrifon banc, gan gynnwys cyfrifon ar y cyd a chyfrifon adnau? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 53: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno didynnu cyfandaliadau cyfnodol ar gyfer y dyledwyr hynny y telir symiau rheolaidd i'w cyfrifon? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 54: A ydych yn cytuno y dylai'r llys allu cael gafael ar wybodaeth am y dyledwr na fyddai credydwyr efallai'n gallu cael gafael arni fel arall? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 55: A ydych yn cytuno y dylai adrannau'r llywodraeth allu rhannu gwybodaeth i gynorthwyo adennill dyledion sifil heb eu talu? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 56: A oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â Cheisiadau Gwybodaeth, Ceisiadau Gwybodaeth Adrannol neu Orchmynion Gwybodaeth? Os felly, beth ydyn nhw?

Cwestiwn 57: A ydych yn credu y dylid ymestyn awdurdod gorchymyn dyfarniad y llys i alluogi credydwyr i wneud cais uniongyrchol i ddarparwr gorfodaeth trydydd parti heb fod angen gwneud cais i'r llys am brosesau gorfodi ar ôl cael gorchymyn dyfarniad? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 58: Sut y byddech yn rhagweld y broses yn gweithio (o ran cyflwyno dogfennau, baich ychwanegol ar fanciau, cyflogwyr, monitro gweithgareddau gorfodi, ayyb)?

Cwestiwn 59: A ydych yn cytuno y dylai holl orfodaeth Rhan 4 gael ei gweinyddu yn y llys sirol? Os nad ydych, esboniwch pam.

Adran 5 – Diwygio strwythurol

Cwestiwn 60: A ydych yn cytuno bod yr uchafswm ariannol presennol o £30,000 ar gyfer awdurdodaeth ecwiti'r llys sirol yn rhy isel? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 61: Os mai "ydw" oedd eich ateb i Gwestiwn 60, a ydych yn credu y dylid cynyddu'r uchafswm ariannol i (i) £350,000 ynteu (ii) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Cwestiwn 62: A ydych yn cytuno bod yr uchafswm ariannol o £25,000 ar gyfer dechrau achosion yn yr Uchel Lys yn rhy isel? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 63: Os mai "ydw" oedd eich ateb i Gwestiwn 62, a ydych yn credu y dylid cynyddu'r uchafswm ariannol (ar wahân i hawliadau anafiadau personol) i (i) £100,000 ynteu (ii) ffigur arall (nodwch gan roi rhesymau)?

Datrys anghydfodau yn y llysoedd sirol

Cwestiwn 64: A ydych yn cytuno y dylid ymestyn y grym i osod gorchmynion rhewi i Farnwyr Cylchdaith â chymwysterau addas sy'n eistedd yn y llysoedd sirol? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 65: A ydych yn cytuno y dylai hawliadau am amrywio ymddiriedolaethau a hawliadau penodol dan y Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth arbenigol arall, megis cynlluniau trefniant, lleihau cyfalaf, cynlluniau trosglwyddo yswiriant a threfniadau uno trawsffiniol, ddod o dan awdurdodaeth yr Uchel Lys yn unig? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 66: Os mai "ydw" oedd eich ateb i gwestiwn 65, rhowch enghreifftiau o hawliadau eraill dan y Ddeddf Cwmnïau yr ydych yn credu y dylent ddod o dan awdurdodaeth yr Uchel Lys yn unig.

Cwestiwn 67: A ydych yn cytuno, lle bo gan Farnwr yr Uchel Lys awdurdodaeth i eistedd fel barnwr y llys sirol, y dylid tynnu'r angen am gais penodol yr Arglwydd Brif Ustus ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 68: A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno darpariaeth gyffredinol i alluogi Barnwr yr Uchel Lys i eistedd fel barnwr y llys sirol yn ôl gofynion busnes? Os nad ydych, esboniwch pam.

Cwestiwn 69: A ydych yn cytuno y dylid sefydlu un llys sirol? Os nad ydych, esboniwch pam.

Adran 6 – Asesiadau effaith

Cwestiwn 70: A ydych yn cytuno ein bod wedi llwyddo i ganfod ystod lawn effeithiau'r cynigion a nodwyd yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau.

Cwestiwn 71: A ydych yn cytuno ein bod wedi llwyddo i ganfod graddfa lawn effeithiau'r cynigion hyn? Rhowch resymau.

Cwestiwn 72: A oes gennych unrhyw dystiolaeth o effeithiau ar gydraddoldeb nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb? Os felly, sut y gellid eu lliniaru?